**Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council**
**Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn gynhaliwyd Mai 16, 2023 am 7 o'r gloch.**
***Minutes of the Full Council meeting held May 16, 2023 at 7pm*.**

Presennol/Present: Carys Davies, Mike White, Brian Potter, Enid Jones, Elfed Jones, Dei Owens, Derek Owen, Dafydd Williams, Lowri Jones, Carli Evans Thau (clerc/clerk), Aled Job (cyfieithu/translator), 5 aelod o'r gymuned/members of the community.

Ymddiheuriadau: Vic Ensor, Keith Fitton, Aled Morris Jones, Liz Wood

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**
Bu Carys Davies groesawy pawb i'r cyfarfod.
*Carys Davies welcomed all to the meeting.*

**2 Datgan Diddordeb / Declarations of Interest**
Dim/None

**3 Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd / To appoint Chair and Vice Chair**
Bu cytuno yn unfrydol byddai Carys Davies a Derek Owen yn aros yn gadeirydd ac is-gadeirydd am flwyddyn arall.

**4 Cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau / Confirmation of Committee Members**

- **Cyllid/Finance -**Derek Owen, Carys Davies, Lowri Jones (C), Enid Jones, Mike White, Brian Potter
- **Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces –** Derek Owen, Carys Davies, Dei Owens, Enid Jones, Keith Fitton (C), Mike White, Elfed Jones
- **Harbwr / Harbour –** Brian Potter (C), Dei Owens, Keith Fitton (ac aelodau'r gymuned /and members of the community)

Cadarnhawyd cynrychiolaeth ar bwyllgorau allannol fel a ganlyn. Nodwyd pwysigrwydd bod aelodau yn mynychu ac yn adrodd yn ol i'r Cyngor.
*Membership on external committees was confirmed as follows. The importance of attending meetings and reporting back to the council was noted.*

- **Clwb Pel Droed / Football club –** Dei Owens
- **Clwb Ffitrwydd / Fitness Club –** Mike White
- **SSG Wylfa (Magnox) –** Derek Owen, Carys Davies
- **Llywodraethwyr Ysgol / School Governors –** Carys Davies
- **Un Llis Cymru / One Voice Wales –** Enid Jones, Lowri Jones
- **Cronf Padrig –** Derek Owen, Elfed Jones
- **Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils Partnership –** Derek Owen, Carys Davies
- **Fferm Solar Porthwen Solar Farm** – Carys Davies, Elfed Jones (Derek Owen yn mynychu fel aelod sirol / Derek Owen attending as a county councillor)

**5 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the last meeting**
Derbyniwyd y cofnodion – cynnig Dafydd Williams, eilio Brian Potter.
*Minutes were approved - proposed by Dafydd Williams, seconded Brian Potter.*

**6 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**
Dim / None

**7 Diweddariadau / Updates**

7.1 **Cyllid a Personel / Finance and Personnel**
Cafwyd crynodeb o'r cyfarfod diwethaf gan Lowri Jones.Nodwyd bod angen edrych ar effeithlonrwydd ynni adeilad 10/12 Stryd Fawr a bod edrych i fewn i wneud y gwelliannau tra yn trin cefn yr adeilad. Cafwyd wybod bod disgwyl gwybodaeth pellach a prisiau gan yr asiant ar gyfer y gwaith ynghlwm a chais cynllunio Mynwent y Rhyd.

Trafodwyd cais tuag at ddigwyddiad Tan Gwyllt y pentref a bu'r pwyllgor gytuno cyfrannu £200 tuag at eu costau. Ni fu gwrthwynebiad. Nodwyd nad oedd y cais grant mawr i ail wynebu'r cae

chwarae aml bwrpas wedi bod yn llwyddianus a bod felly angen chwilio am grantiau llai tuag at y gost.

Mae dal i ddisgwyl ymateb ysgrifennedig gan CSYM cyn gosod y camerau CCTV ym mhen draw'r traeth.

*A summary of the last meeting was given by Lowri Jones. It was noted that the energy efficiency of the 10/12 Stryd Fawr building needs to be looked at and that the improvements need to be looked at while dealing with the back of the building. We were informed that further information and prices are expected from the agent for the work involved and the Rhyd Cemetery planning application.*

*An application towards the village's Bonfire event was discussed and the committee agreed to contribute £200 towards their costs. There was no objection. It was noted that the large grant application to resurface the multi-purpose playing field had not been successful and that it was therefore necessary to look for smaller grants towards the cost.*

*A written response from IACC is expected before installing the CCTV cameras at the end of the beach.*

7.2 **Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces**
Grant mawr y cae aml bwrpas wedi ei grybwyll eisioes. Nodwyd bod DU construction wedi trin a glanhau'r ffens o amgylch yr offer chwarae i blant iau. Elfed Jones i gael prisiau am lanhau offer chwarae Tregele.

Elfed Jones i drefnu cyfarfod gyda'r adran briffyrdd i drafod gwylfan posib ger Sea View. Bu gohurio'r cyfarfod diwethaf oherwydd salwch.

Trafodwyd cais am blaciau coffa ar meinciau o amgylch y pentref. Nodwyd mai polisi'r cyngor oedd gosod meinciau plastic wedi'i ailgylchu, a bod eithriad i'r ddwy mainc nodwedd derw oedd i'w gosod gan Cemaes Bay Nature For All yn Nant Ysgrwngi. Bu'r aelodau yn unfrydol cadw at bolisi cyfredol y cyngor. Cytuno byddai Elfed Jones yn cael prisiau am baentio'r hen meinciau coed sydd ar ol yn y pentref.

Trafodwyd hysbysebion ar docynnau parcio meysydd parcio'r traeth. Lowri Jones ac Elfed Jones i gydlynnu. Bydd yr hysbysebion yn talu am argraffu'r 15,000 tocyn cyntaf.

*The big grant for the multi-purpose field has already been mentioned. It was noted that DU construction had repaired and cleaned the fence around the play equipment for younger children. Elfed Jones to get prices for cleaning Tregele play equipment.*

*Elfed Jones to arrange a meeting with the highways department to discuss a possible lookout near Sea View. The last meeting was postponed due to illness.*

*A request for memorial plaques on benches around the village was discussed. It was noted that the council's policy was to install recycled plastic benches, and that a concession had been made for two carved oak feature benches that were to be installed by Cemaes Bay Nature For All in Nant Ysgrwngi. The members unanimously adhered to the council's current policy. Agreed that Elfed Jones would get prices for painting the old wooden benches that remain in the village.*

*Advertisements on the parking tickets of the beach car parks were discussed. Lowri Jones and Elfed Jones to coordinate. The adverts will pay for the printing of the first 15,000 tickets.*

7.3 **Pwyllgor yr Harbwr / Harbour committee**
Cafwyd ddiweddariad gan Brian Potter. Nododd Dafydd Williams bod y bwis cyflymdra wedi eu lleoli erbyn hyn ond nadoedd unrhywbeth wedi eu paentio arnynt i ddynodi eu pwrpas. Dafydd Williams i drefnu gwneud hynnu cyn gynted a phosib. Trafodwyd problemau gydag ymddygiad jet skis yn y bae. Nodwyd bod deddf newydd erbyn hyn yn rhoi hawliau ychwanegol i'r MCA a'r heddlu i gosbi sawl sydd ym ymddwyn yn gwrthgymdeithasol.

*Brian Potter provided an update. Dafydd Williams noted that the speed bumps had now been located but that nothing had been painted on them to indicate their purpose. Dafydd Williams to arrange to do that as soon as possible. Problems with the behaviour of jet skis in the bay were discussed. It was noted that a new law now gives additional rights to the MCA and the police to punish those who behave anti-socially.*

7.4 **Port St Mary**
Dim diweddariad / No update

7.5 **Pwyllgorau Allannol / External Meetings**
Nodwyd bod Carys Davies wedi mynychu cyfarfodydd blynyddol Menter y Pentref a'r grwp sy'n trefnu 'r Tan Gwyllt, a bu iddi diolch i bawb ynghlwm a'r grwpiau cymunedl amau gwaith a'r hyn maent yn ei ddarparu i'r pentref.

Cafwyd grynodeb gan Derek Owen yn Dilyn ymweliad safle Wylfa Newydd ynghyd a Carys Davies. Bu gofyn i'r cwmni am fwy o wybodaeth a diweddariadau mwy cyson. Nodwyd bod y Cyngor wedi dysgu ers cais cynllunio Horizon ac y byddai angen arian a chefnogaeth gan y datblygwr i benodi rhywuna phrofiad i arwain a chefnogi y cymunedau bychain fydd yn cael eu heffeithio fwyaf petai cais o'r newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer y safle.

Nododd Lowri Jones ei bod yn cyfarfod a Richard Jones yn y dyddiau nesaf i wirio'r di-ffibriwleiddwyr o amgylch y pentref a chadarnhau yn union beth sydd i fod ym mhob pecyn.

*It was noted that Carys Davies had attended the annual meetings of the Village Venture/Menter y Pentref and the group that organises the fireworks, and she thanked everyone involved with the community groups for their work and what they provide to the village.*

*A summary was given by Derek Owen following the visit to the Wylfa Newydd site together with Carys Davies. The company was asked for more information and more frequent updates. It was noted that the Council had learned since the Horizon planning application and that funding and support would be needed from the developer to appoint someone with experience to lead and support the small communities that will be most affected if a new application is submitted for the site.*

*Lowri Jones noted that she is meeting with Richard Jones in the next few days to check the defibrillators around the village and confirm exactly what is to be in each package.*

**8 Cynllunio / Planning**

8.1 Ceisiadau/Applications –
FPL/2023/46 – 13Maes Padrig – dim sylw pellach / no further observation
FPL/2023/69 – Dolydd – dim gwrthwynebiad on siom derbyn cais olweithredol / no objection but disappointment noted that the application was retrospective

8.2 Penderfyniadau/Decisions –
Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn – dim
*IACC decisions were noted as follows – none*

8.3 Cynllunio – Arall / Planning – Other
Daethpwyd ag ebost gan un o drgolion Tregele at sylw'r aelodau yn pryderu am ddatblygiad posib yng Nhgae Garnedd. Cytuno ymateb yn argymell bod yr unigolyn yn cysylltu a'r adran gynllunio i nodi eu pryderon ac i wirio pa gynlluniau sydd wedi eu cyflwyno ar gyfer y tir dan sylw os unrhywbeth.

Bu tynnu sylw'r aelodau at ebost gyda dolennau ar gyfer dogfennau ymgynghoriad cyn-cynllunio storfa batris Carrog. Mae copiau caled o'r dogfennau i'w gweld yn y Llyfrgell yn Amlwch. Mae'r dyddiad cau i ymateb i'r ymgynghoriad 8/6/2023.

*An email from one of Tregele's residents was brought to the members' attention noting concerns about a possible development in Cae Garnedd. Agreed to respond recommending that the*

*individual contact the planning department to note their concerns and to check what plans have been submitted for the land in question, if anything.*

*Members' attention was drawn to an email with links for pre-planning consultation documents for the Carrog battery store. Hard copies of the documents can be seen in the Library in Amlwch. The deadline to respond to the consultation is 8/6/2023.*

**9 Cynllun Hyfforddiant Aelodau / Members Training Plan**

Bu'r clerc atgoffa'r aelodau am bwysigrwydd hyfforddiant. Bu atgoffa am y sesiwm Cod Ymddygiad oedd i'w gynnal yn Amlwch 6/6/2023 a phwysleisio pwysigrwydd bod pawb yn mynychu os nad oeddent wedi mynychu'r sesiwn Cymraeg er diogelwch eu hunain a'r Cyngor.

*The clerk reminded the members about the importance of training. There was a reminder about the Code of Conduct session to be held in Amlwch 6/6/2023 and the importance of everyone attending if they had not attended the Welsh session for their own and the Council's safety.*

**10 Ymgynghoriadau Cyngor Sir / County Council Consultations**

Bu tynnu sylw aelodau at ymgynghoriadau CSYM fel a ganlyn –

- Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu (dyddiad cau 18/5/2023)
- Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol (dyddiad cau 9/6/2023)
- Cynllun Rheoli Cyrchfan (dyddiad cau 9/6/2023)

Members' attention was drawn to the IACC consultations as follows –
- Learning Communities Modernisation Strategy (closing date 18/5/2023)
- Area of Outstanding Natural Beauty (closing date 9/6/2023)
- Destination Management Plan (closing date 9/6/2023)

**11 Materion Priffyrdd / Highway Matters**

**11.1** 20mya/mph

Bu'r aelodau gytuno a'r cynnigion gan CSYM, a gofyn am sicrwydd bod yr ardal 20mya yn parhau hyd Castellior er nad oedd wedi ei gynnwys ar y cynlluniau.

*The members agreed with the proposals from IACC, and asked for assurance that the 20mph area continued until Castellior even though it was not included on the plans.*

**11.2** Croesfan Tregele Crossing

Cafwyd ddiweddariad gan Derek Owen a bu nodi ei fod yn cwrdd a swyddogion yr adran briffyrdd ddiwedd yr wythnos. Bu'r cyngor yn unfrydol yn gofyn bod y 40mya yn Nhregele yn cael ei ostwng i 30mya gan nodi bod nifer o blant a henoed yn croesi nol a mlaen i'r garej/siop yn rheolaidd.

*There was an update from Derek Owen and it was noted that he was meeting with officers from the highways department at the end of the week. The council unanimously requested that the 40mph in Tregele be reduced to 30mph noting that a number of children and the elderly regularly cross back and forth to the garage/shop.*

**11.3** Materion eraill priffyrdd / Other highways matters

Bu Derek Owen nodi y byddai yn tynnu sylw swyddogion at, ac yn eu hatgoffa o'r rhestr gwaith oedd byth wedi ei gwblhau gan gynnwys – llinellau melyn ger Marine Terrace – Castellior, tyllau yn y ffordd, problemau parcio (gan gynwys ffordd Victoria), chwynladdwr, arwyddion Cymraeg, arwyddion cerddwyr ar lon Sgotland Bach ac arwyddion dim parcio yn y llecynau pasio!

*Derek Owen pointed out that he would draw officers' attention to, and remind them of, the work list that had never been completed including – yellow lines near Marine Terrace – Castellior, potholes, parking problems (including Victoria road), weedkiller, Welsh signs, pedestrian signs on Lon Scotland Bach and no parking signs in the passing spots!*

**12 Gohebiaeth / Correspondence**

Bu'r clerc nodi bod unrhyw eitemau perthnasol wedi eu hanfon ymlaen drwy ebost wrth eu derbyn.

Bu tynnu sylw'r aelodau at ebost a dderbyniwyd gan Jaqui Evans a Pauline Roberts yn dwyn sylw at nifer o faterion, y rhan helaeth wedi eu trafod eisioes. Gobeithir bod y ddwy yn gweld bod y Cyngor Cymuned yn gweithredu.

Bu tynnu sylw at lwybr yn y cae chwarae, mae'r cyngor wedi trafod y mater yn y gorffennol ac wedi gofyn i rywun wneud y gwaith ond eu bod heb nweud hynnu. Elfed Jones i drefnu bod cerrig yn cael eu gosod cyn gyted a phosib.

Nodwyd bod Arwel Evans (CSYM) wedi cadarnhay cyn y cyfarfod diwethaf ei fod mewn cysylltiad a chontractwyr i gwblhau'r llwybr concrit yn Nant Ysgrwngi gan nad oedd y sawl oedd wedi dechrau ar y gwaith wedi ei gwblhau. Nid y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am y gwaith yma.

*The clerk noted that all relevant items had been forwarded by email as received.*

*The members' attention was drawn to an email received by Jaqui Evans and Pauline Roberts bringing attention to a number of issues, most of which have already been discussed. It is hoped that both see that the Community Council is taking action.*

*Attention has been drawn to a path in the playing field, the council has discussed the issue in the past and asked someone to do the work but they have not made any progress. Elfed Jones to arrange for stones to be placed as soon as possible*

*It was noted that Arwel Evans (ACYM) had confirmed before the last meeting that he was in contact with contractors to complete the concrete path in Nant Ysgrwngi as the person who had started the work had not completed it. The Community Council is not responsible for this work.*

**13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn Mehefin 20 2023 am 7yh yn y Ganolfan Dreftadaeth.
*The next Full Council meeting is to be held 20th June 2023 at 7pm at the Heritage Centre.*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30 / The meeting closed at 20.30

**Carys Davies**
**Cadeirydd / Chair, Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council**
CET05/23